

# Cofrestr yr NMC

1 Ebrill 2024 –  
31 Mawrth 2025



Mae data o gofrestr yr NMC yn rhoi'r cyfrif pendant o gyfanswm y gweithlu nyrsio a bydwreigiaeth sydd ar gael yn y DU.

Mae'r **arolwg ymadawyr** sydd ynghlwm yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar y rhesymau pam mae pobl wedi gadael ein proffesiynau.

## Y darlun mawr

Mae cofrestr yr NMC o nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio sy'n gallu ymarfer yn y DU wedi cyrraedd uchafbwynt o **853,707** – sy'n cynrychioli **dau y cant** o'r boblogaeth oedran gweithio gyfan.

Fodd bynnag, mae twf y gofrestr wedi arafu – rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025, tyfodd y gofrestr **dim ond 3.3 y cant**, o'i gymharu â 4.8 y cant yn ystod yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol (Ebrill 2023 – Mawrth 2024).

Mae hyn yn bennaf oherwydd arafwch sylweddol mewn recriwtio rhyngwladol, a oedd wedi codi dros y blynyddoedd blaenorol. Yn 2024-2025, roedd gweithwyr proffesiynol rhyngwladol yn cyfrif am **39.1 y cant** o ymunwyr newydd â'r gofrestr. Yn y tair blynedd flaenorol, roeddent wedi cyfrif am **rhwng 48.0 a 49.4 y cant** o'r rhai a ymunodd.

Rydym yn parhau i weld **mwynag un o bob 10 o bobl** sy'n gadael y gofrestr yn nodi eu hiechyd corfforol a meddyliol fel y prif reswm - gyda'r rhan fwyaf o'r rhai hynny'n dweud bod eu rôl broffesiynol wedi gwaethygu eu hiechyd. Yn bryderus, byddai **llai nag un rhan o bump** o'r rhai sy'n gadael yn argymhell y proffesiynau i eraill.

<sup>1</sup> Cyflwynwyd y rôl cydymaith nyrsio yn 2019. Dim ond yn Lloegr y gall cymdeithion nyrsio ymarfer yn y rôl hon.

Nifer uchaf erioed o

**853,707**

o weithwyr  
proffesiynol  
cofrestredig

Cynnydd o

**27,289**

+3.3%

Ym mis Mawrth 2025,  
o'i gymharu â mis  
Mawrth 2024



+3%

**Nyrsys**

788,074



+5.6%

**Bydwagedd**

46,606



-1.8%

**Cofrestrwyr  
deuol**

6,245



+17.5%

**Cymdeithion  
nyrsio<sup>1</sup>**

12,782

Yn y 12 mis  
diwethaf o'i gymharu  
â'r un cyfnod yn  
2023-2024



-11.9%

Ymunodd

**52,833**

â'r gofrestr



+6.0%

Gadawodd

**28,789**

y gofrestr

## Golwg agosach ar yr arafwch mewn recriwtio rhyngwladol

Dros y flwyddyn ddiwethaf, ymunodd **20,671 o weithwyr proffesiynol** a addysgwyd y tu allan i'r DU â chofrestr yr NMC am y tro cyntaf. Mae hynny'n **8,957 (30.2 y cant) yn llai** na'r flwyddyn flaenorol (**29,628** yn y 12 mis hyd at Fawrth 2024).

Lledaenwyd yr arafwch hwn ar draws gwledydd, gan gynnwys y tair ffynhonnell recriwtio rhyngwladol uchaf yn ystod y blyneddoddi diwethaf: India, Ynysoedd y Philipinau a Nigeria. Gostyngodd nifer yr ymunodd a gafodd eu haddysgu yn y tair gwlad hyn **36.7 y cant, 47.6 y cant** a **25.5 y cant**, yn y drefn honno, dros y flwyddyn ddiwethaf.

Yn ogystal, gadawodd cyfanswm o **5,276** o weithwyr proffesiynol rhyngwladol y gofrestr yn ystod y cyfnod hwn – **33.3 y cant (1,317) yn fwy** na'r flwyddyn flaenorol (**3,959**). Wedi dweud hynny, mae'n bwysig ystyried data'r rhai sy'n gadael yng nghyd-destun cofrestr sy'n tyfu – gadawodd **2.7 y cant** o'r garfan ryngwladol y gofrestr dros y flwyddyn ddiwethaf, sy'n gynydd ymylol o'i gymharu â 2.4 y cant y flwyddyn flaenorol. Gallai ffactorau gynnwys newidiadau i weithwyr proffesiynol ar fisa Gweithiwr Iechyd a Gofal.

Mae pwyslais mwy hefyd wedi bod ar recriwtio domestig yn Lloegr o dan Gynllun Gweithlu Hirdymor y GIG.

Yn ogystal, canfu dadansoddiad o'n data gan y Sefydliad Iechyd gynydd sylweddol mewn gweithwyr proffesiynol rhyngwladol ar gofrestr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth sy'n ceisio symud i wledydd eraill, wedi'u denu'n bennaf gan y posibilrwydd o botensial enillion gwell.

### Yn y 12 mis diwethaf

Addysgwyd

**39.1%**

o ymunwyr newydd y tu allan i'r DU



### O fis Mawrth 2025:

**75.9%**

Addysgwyd yn y DU



**24.1%**

Addysgwyd yn rhyngwladol



Ymunwyr newydd o wledydd addysg gorau nad ydynt yn y DU yn y 12 mis diwethaf, a newid o'r un cyfnod yn 2023-2024

**1**



**India**

9,249 ↓ -36.7%

**2**



**Y Philipinos**

2,323 ↓ -47.6%


**3**



**Nigeria**

2,363 ↓ -25.5%

### Gweithwyr proffesiynol a addysgwyd yn rhyngwladol yn ymuno â'r gofrestr am y tro cyntaf



## Recriwtio domestig ddim yn ddigon i wrthbwysu'r arafwch rhyngwladol

Mae nifer y gweithwyr proffesiynol a addysgwyd yn y DU sy'n ymuno â'n cofrestr am y tro cyntaf wedi parhau i dyfu ond ar gyfradd arafach a heb fod yn ddigon i wrthbwysu'r gostyngiad mewn recriwtio rhyngwladol - felly mae'r gofrestr gyffredinol wedi tyfu'n arafach dros y flwyddyn ddiwethaf.

Ymunodd cyfanswm o **32,163** o weithwyr proffesiynol y DU â'n cofrestr yn y 12 mis hyd at Fawrth 2025, sydd **5.9 y cant yn fwy** nag yn y flwyddyn flaenorol (**30,363**). Fodd bynnag, yn 2023-2024, tyfodd nifer a ymunodd yn y DU o **11.9 y cant**.

Mae'r ffigurau diweddaraf yn cyfateb i **1,800 ychwanegol** o ymunwyr o'r DU dros y flwyddyn ddiwethaf, o'i gymharu ag **8,959 yn llai** o ymunwyr rhyngwladol.

Cododd nifer yr ymadawyr yn y DU **1.3 y cant** i **23,513** ond mae'n parhau heb newid fel cyfran o'r garfan gynyddol yn y DU ar y gofrestr, sef **3.7 y cant**.

Mae **647,690** o weithwyr proffesiynol a addysgwyd yn y DU ar y gofrestr nawr - cynnydd o **11,489** neu **1.8 y cant** ers 31 Mawrth 2024 (**636,201**).

## Rhesymau dros adael

Gadawodd cyfanswm o **28,789** o bobl gofrestr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn y flwyddyn hyd at Fawrth 2025. Mae hynny'n golygu bod **3.5 y cant** o'r gofrestr wedi gadael, o'i gymharu â **3.4 y cant** y flwyddyn flaenorol.

Ymddeoliad yw'r prif reswm pam mae pobl yn gadael ein cofrestr bob amser, yn ôl ymatebwyr i'n harolwg blynyddol o ymadawyr.

Yn destun pryder, yr ail reswm mwyaf cyffredin y llynedd oedd iechyd corfforol neu feddyliol pobl. Am yr ail flwyddyn yn olynol, rhoddodd cyfanswm o **13 y cant** hyn fel eu prif reswm - gyda **70 y cant** o'r rhai yn dweud bod eu rôl broffesiynol wedi cael effaith negyddol ar eu hiechyd corfforol, ac **85 y cant** yn dweud ei fod wedi gwaethygu eu hiechyd meddwl.

Dim ond **20 y cant** o'r ymadawyr a ddywedodd y byddent yn argymhell gyrfa mewn nyrsio neu fydwreigiaeth.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2023-2024

**+5.9%**  **Ymunwyr a addysgwyd yn y DU**  
32,163

**+1.3%**  **Ymunwyr a adawyd yn y DU**  
23,513

O fis Mawrth 2025, o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2023-2024

**+3.1%**  **Nyrsys oedolion**  
628,897

**+4.9%**  **Nyrsys iechyd meddwl**  
103,852

**+4.2%**  **Nyrsys plant**  
61,493

**+0.9%**  **Nyrsys anabledau dysgu**  
16,832

**+0.2%**  **Nyrsys iechyd cyhoeddus cymunedol arbenigol**  
29,336

## Cyfraddau twf gwahanol rhwng y proffesiynau

Mae'n galonogol gweld cynnydd o **4.8 y cant** yn nifer y bydwragedd a ymunodd â'r gofrestr dros y flwyddyn ddiwethaf, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (**3,704 yn erbyn 3,534**). Helpodd hyn i gynyddu nifer y bydwragedd ar y gofrestr i **46,606** – cynnydd o **5.6 y cant** ers mis Mawrth 2024.

Tyfodd nifer y cymdeithion nyrsio ar y gofrestr ar gyfradd hyd yn oed yn uwch (**17.5 y cant**), nad yw'n syndod o ystyried ei fod yn dal i fod yn broffesiwn cymharol newydd. Mae **12,782** o gymdeithion nyrsio ar y gofrestr bellach, o'i gymharu â **10,881** ym mis Mawrth 2024.

Cododd nifer y nyrsys cofrestredig **3 y cant yn unig** dros y flwyddyn ddiwethaf, ac roedd llai o nyrsys newydd yn ymuno yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2025 nag yn ystod y flwyddyn flaenorol (**45,597 yn erbyn 53,077**).

## Cofrestr fwy amrywiol yn ethnig


Mae cyfran yr holl weithwyr proffesiynol cofrestredig o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig<sup>2</sup> wedi parhau i dyfu. Mae'r gweithwyr proffesiynol hyn bellach yn cyfrif am ychydig o dan draean o bawb ar y gofrestr (**32.5 y cant**, o'i gymharu â **31.7 y cant** ar 31 Mawrth 2024).

Mae hyn yn ei gwneud hi'n bwysicach nag erioed y gall gweithwyr proffesiynol ymarfer mewn amgylchedd sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn mynd i'r afael â hiliaeth. Fel y rheoleiddiwr proffesiynol, mae gennym gyfrifoldeb hefyd i ddarparu canlyniadau teg a phrofiadau cadarnhaol i bawb ar ein cofrestr, waeth beth fo'u cefndir neu eu nodweddion.


Mae hyn yn rhywbeth yr ydym yn gweithio tuag ato trwy ein **Cynllun Gwella Addasrwydd i Ymarfer** a'n **Cynllun Trawsnewid Diwylliant**. Hefyd, ym mis Ebrill fe wnaethom lofnodi Siarter Gwrth-Hiliaeth UNSAIN fel rhan o'n hymrwymiad i ddod yn sefydliad gwrth-hiliol. Ar ben hynny, byddwn yn cyhoeddi amcanion a thargedau strategol newydd ar gyfer tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) ar gyfer ein sefydliad yn fuan.

Mae **32.5%** o'r gofrestr o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig<sup>2</sup>. Yn 2020, roedd **20.1%** o'r gofrestr o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

### Rhaniad rhywedd y gofrestr



### Crefyddau a nodwyd mwyaf cyffredin, newid mewn 12 mis



<sup>2</sup> Mae'r NMC yn cydnabod bod iaith yn y maes hwn yn newid yn gyson a bod y bobl sydd wedi'u cynnwys o fewn termau mor eang yn cwmpasu grwpiau ethnig amrywiol. Rydym yn adolygu'r iaith a ddefnyddiwn yn rheolaidd.

## Mae pobl yn ymuno â'n cofrestr am y tro cyntaf yn hwyrach

Dyma'r flwyddyn gyntaf i **fwy na 50 y cant** o'r ymunwyr newydd yn 31 oed a hŷn, yn dilyn cynnydd graddol dros amser yng nghyfran yr ymunwyr yn yr ystod oedran hon.

Mae hyn yn bennaf oherwydd nifer fawr o bobl 31-50 oed yn ymuno o'r tu allan i'r DU (**58.3 y cant** o'r ymunwyr rhyngwladol dros y flwyddyn ddiwethaf).

Fodd bynnag, bu cynnydd hefyd yn nifer y bobl o'r DU sy'n ymuno â'r proffesiynau yn eu tridegau neu'n hwyrach - yn y chwe mis diwethaf, roedd **46.5 y cant** o'r ymunwyr o'r DU yn 31 oed neu'n hŷn, tra bod y ffigur bum mlynedd yn ôl yn **37 y cant**.

## Mae pob maes ymarfer yn dangos twf eleni

Dyma'r flwyddyn gyntaf ers 2019-2020 i ni adrodd am gynnydd yn nifer y nyrsys anabledd dysgu ar ein cofrestr. Er hynny, mae'r cynnydd yn gymedrol iawn (**16,832** ar 31 Mawrth 2025, o'i gymharu â **16,683** ar 31 Mawrth 2024).

## Rhannu mewnwelediadau i gefnogi'r sector

Rydym yn gobeithio y bydd y trosolwg hwn, ochr yn ochr â'n tablau data cynhwysfawr, yn cefnogi polisi, cynllunio ac ymchwil y gweithlu yn y DU, gan sicrhau'r ddarpariaeth fwyaf effeithiol o wasanaethau y mae pobl a chymunedau ledled y wlad yn dibynnu arnynt ar gyfer eu hiechyd a'u lles.

Os oes gennych gwestiynau am ein data neu syniadau ar sut y gallem wella defnyddioldeb yr adroddiad hwn, cysylltwch â ni ar [research@nmc-uk.org](mailto:research@nmc-uk.org).



**Paul Rees MBE**  
Prif Weithredwr a  
Chofrestrydd Interim

Ym mis Mawrth 2025

**44 mlynedd,  
3 mis**

oedd oedran  
cyfartalog pobl  
ar y gofrestr



Roedd **51.1%**  
o'r rhai newydd  
ymuno yn 31 oed  
neu'n hŷn

Hyd amser ers  
y cofrestrriad  
cychwynnol, newid  
yn y 12 mis diwethaf

**+5.8%**  
**Pum  
mlynedd  
neu lai**  
241,942

**+9.2%**  
**Pum i  
ddeng  
mlynedd**  
134,696

**+1.8%**  
**10 i 30  
mlynedd**  
342,652

**-2.4%**  
**30  
mlynedd  
neu fwy**  
134,417

**Ni ddylem anghofio bod gweithwyr proffesiynol ymroddedig y tu ôl i'n data sy'n darparu gofal diogel, effeithiol a charedig i bobl bob dydd. Rydym yn ddiolchgar am bopeth maen nhw'n ei wneud dros y bobl a'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu.**



## Yr hyn a wnawn

Ein gweledigaeth yw ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a lles pawb. Fel rheoleiddiwr annibynnol dros 853,000 o nyrsys a bydwragedd yn y DU a chymdeithion nyrsio yn Lloegr, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae wrth wireddu'r weledigaeth hon.

Rydym yma i amddiffyn y cyhoedd trwy gynnal safonau nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol uchel, y mae gan y cyhoedd hawl i'w disgwyl. Dyna pam rydym yn gwella'r ffordd rydym yn rheoleiddio, yn gwella ein cymorth i gydweithwyr, gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd, ac yn gweithio gyda'n partneriaid i ddylanwadu ar ddyfodol iechyd a gofal cymdeithasol.

Ein rôl graidd yw rheoleiddio. Rydym yn gosod ac yn hyrwyddo safonau addysg a phroffesiynol uchel ar gyfer nyrsys a bydwragedd ledled y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr ac yn sicrhau ansawdd eu rhaglenni addysg. Rydym yn cynnal uniondeb y gofrestr o'r rhai sy'n gymwys i ymarfer. Ac rydym yn ymchwilio i bryderon am weithwyr proffesiynol - rhywbeth sy'n effeithio ar ychydig iawn o bobl yn unig ar ein cofrestr bob blwyddyn.

Er mwyn rheoleiddio'n dda, rydym yn cefnogi gweithwyr proffesiynol nyrsio a bydwreigiaeth a'r cyhoedd. Rydym yn creu adnoddau a chanllawiau sy'n ddefnyddiol drwy gydol gyrfaedd gweithwyr proffesiynol, gan eu helpu i gyflawni ein safonau yn ymarferol ac ymdrin â'r heriau y maent yn eu hwynebu. Rydym yn gweithio ar y cyd fel bod pawb yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys a'u grymuso i lunio ein gwaith. Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i ymdrin â phryderon cyffredin, rhannu ein data, ein mewnwelediad a'n dysgu, i ddylanwadu ar benderfyniadau a'u llywio a helpu i ysgogi gwelliant mewn iechyd a gofal cymdeithasol i bobl a chymunedau.

23 Portland Place, London W1B 1PZ

+44 20 7637 7181 [www.nmc.org.uk](http://www.nmc.org.uk)

 @nmcnews  @nmcuk  @nmcnews

 The Nursing and Midwifery Council

**nmc**  
**Cyngor**  
**Nyrsio a**  
**Bydwreigiaeth**